PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

ADOLYGIAD POLISI ADFYWIO CYMUNED

Pwrpas

1. Ystyried drafft o gylch gorchwyl a chynllun prosiect adolygiad y Pwyllgor o rôl grwpiau cymunedol wrth adfywio cymuned.

Crynodeb / Awgrymiadau

2. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried y cylch gorchwyl a chynllun y prosiect a gynigir, fel y'u dangosir isod.

Cefndir

3. Mae'r Pwyllgor wedi penderfynu ymgymryd ag adolygiad polisi o rôl grwpiau cymunedol wrth adfywio cymuned. Yn y cyfarfod ar 20 Mehefin cytunodd y Pwyllgor i rannu'r adolygiad yn gamau, gyda'r sylw i ddechrau yn cael ei roi ar fframwaith polisi ac ariannu adfywio cymunedol. Bydd y camau dilynol i'w penderfynu fel yr aiff yr adolygiad yn ei flaen.
4. Cytunwyd hefyd y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn llunio drafft o'r cylch gorchwyl a chynllun y prosiect ar gyfer yr adolygiad.

i. Cylch gorchwyl

1. Yn sgil y gwaith i'w wneud ar yr adolygiad, rhoddir y cylch gorchwyl canlynol i'r Pwyllgor ei ystyried:

Ystyried:

- y polisïau a'r rhaglenni sydd wedi eu hanelu at adfywio cymunedau ac sydd wedi eu mabwysiadu gan y Cynulliad a'r cyrff y mae'n eu noddi, gyda'r bwriad o wneud argymhellion ynghylch symleiddio'r rhaglenni sydd eisoes yn bodoli a gwella'r trefniadau ar gyfer eu gwireddu;
- pa faterion pellach ynghylch yr agenda adfywio cymunedol ddylai'r Pwyllgor fynd i'r afael â hwy, gan ystyried y gwaith sy'n cael ei wneud ar y rhaglen *Rhoi Cymunedau'n Gyntaf*.

ii Cynllun y prosiect

1. Amgaeir amlinelliad o gynllun y prosiect ar gyfer cam cyntaf yr adolygiad. Mae hwn yn cymryd i ystyriaeth nodyn canllaw Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor ar yr arferion gorau wrth ddelio ag adolygiadau polisi. Mae'r cynllun yn rhoi digon o amser i'r Pwyllgor glywed barn y grwpiau cymunedol eu hunain, yn unol â barn yr Aelodau.